# Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru
# Rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO)

## Rhagymadrodd

Mae’n rhaid i bob plentyn neu berson ifanc sydd wedi’i faethu gael, yn ôl y gyfraith, swyddog adolygu annibynnol (IRO) penodol sydd, lle y bo’n briodol, yn cyfarfod â nhw yn breifat cyn adolygiadau ac sy’n cadeirio’u cyfarfodydd adolygu lleoliadau. Cryfhawyd y rôl hon ym mis Ebrill 2016 drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac fe roddwyd pwerau newydd i swyddogion adolygu annibynnol wirio a herio gwaith yr awdurdod lleol. Maent yn ‘annibynnol’ yn yr ystyr nad y nhw yw gweithiwr cymdeithasol y plentyn, ac nac ydynt o dan yr un rheolwr llinell â’r timau plant. Fodd bynnag, fe gaiff y mwyafrif eu cyflogi gan yr awdurdod lleol a leolodd y plentyn neu’r person ifanc.

## Deddfwriaeth

Amlinellir rôl y swyddog adolygu annibynnol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae’r rôl newydd yn cynnwys:

- gwirio bod gan blant a phobl ifanc unigol sy’n cael eu maethu gynllun gofal a chymorth effeithiol, bod y cynllun hwn yn cael ei weithredu ac nad oes yr un plentyn neu berson ifanc yn cael eu hesgeuluso o fewn y gyfundrefn ofal
- gwirio bod cynlluniau gofal a chymorth o ansawdd da ac yn diwallu’r anghenion a aseswyd sydd gan y plentyn neu’r person ifanc
- cael yr awdurdod lleol i fod yn atebol am ansawdd ei waith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi’u maethu

Mae dolenni i adrannau perthnasol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 a’r Cod Ymarfer yn yr Adnoddau i’w canfod yn nes ymlaen yn y daflen ffeithiau hon.

## Cyfarfodydd Adolygu

Mae’n rhaid i bob plentyn sydd wedi’i faethu gael, yn ôl y gyfraith, cynllun gofal a chymorth effeithiol. Mae ‘effeithiol’ yn golygu bod y cynllun yn diwallu’u hanghenion beunyddiol a hirdymor ac mae’n nodi canlyniadau mewn perthynas â’u hiechyd, addysg, lles emosiynol, datblygiad ymddygiadol, hunaniaeth, cysylltiadau teuluol a chymdeithasol, cyflwyniad cymdeithasol, a sgiliau hunanofal. Mae’ch cyfraniad fel gofalwr maeth yn gyfraniad allweddol tuag at adolygiad llwyddiannus o gynllun gofal a chymorth.

Cyn y cyfarfod adolygu, mae'r swyddog adolygu annibynnol yn gyfrifol am wrando ar y plentyn neu'r person ifanc yn breifat. Dylent hefyd wrando ar farn pawb sydd â chyfrifoldeb rhieni, os yw'n bosibl. Eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau y bydd y bobl iawn yn y cyfarfod.

Yn ystod y cyfarfod adolygu, fe fydd y swyddog adolygu annibynnol yn cadeirio'r cyfarfod ac yn sicrhau y caiff llais, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc eu clywed, hyd yn oed os ydynt wedi penderfynu peidio â bod yn bresennol. Canolbwyntir ar lesiant y plentyn neu'r person ifanc, ac fe adroddir ar ddigwyddiadau ers yr adolygiad diwethaf, gydag asesiad o'r lleoliad cyfredol gan anfon gorchwylion nas gorffennwyd at yr adolygiad nesaf drwy ddiwygio'r cynllun gofal a chymorth, os bydd angen.

Ar ôl y cyfarfod adolygu, fe fydd y swyddog adolygu annibynnol yn monitro bod y cynllun gofal a chymorth yn cael ei weithredu a'i fod yn parhau i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

Mae'n rhaid i'r adolygiad cyntaf ddigwydd o fewn 28 niwrnod ar ôl i'r plentyn ddechrau derbyn gofal, ac wedyn o fewn tri mis, a bob chwe mis ar ôl hynny. Os lleolir plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, mae'r cylch adolygu'n ailddechrau. Ni all yr awdurdod lleol wneud newidiadau sylweddol i'r cynllun heb awdurdodiad gan y swyddog adolygu annibynnol. Os oes yna unrhyw newidiadau sylweddol neu fethiant i weithredu'r cynllun gofal a chymorth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddweud wrth y swyddog adolygu annibynnol, fydd yn dod â dyddiad y cyfarfod adolygu nesaf yn ei flaen.

Mae swyddogion adolygu annibynnol hefyd yn cadeirio adolygiadau o gynlluniau llwybr ar gyfer pobl ifanc 16 neu 17 oed. Yn ôl y gyfraith, nid oes yn rhaid iddynt gadeirio cyfarfodydd adolygu Pan Fydda i'n Barod, ond fe fyddai hyn yn ymarfer da.

## Sicrwydd Ansawdd

Mae'n rhaid i swyddogion adolygu annibynnol adolygu holl achosion plant yn rheolaidd, gan archwilio o leiaf un ffeil achos bob mis a rhoi adborth i swyddog sicrwydd ansawdd yr awdurdod lleol.

Mae'n rhaid i swyddogion adolygu annibynnol hefyd wneud yr awdurdod lleol yn atebol am ei rôl fel rhiant corfforaethol.

Nid yw'r swyddog adolygu annibynnol yn ymdrin â chwynion gan ofalwyr maeth. Y rheolwr gwasanaeth maethu fyddai'n gyfrifol am ymdrin â chwynion, ond os codir pryder mewn cyfarfod adolygu, fe all y swyddog adolygu annibynnol ymchwilio rhagor.

## Gwrando ar blant a phobl ifanc

Mae'r swyddog adolygu annibynnol yn sicrhau bod llais a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc wrth graidd y cynllun gofal a chymorth, ac yn y cyfarfod adolygu. Bydd y swyddog adolygu annibynnol hefyd yn cynorthwyo'r person ifanc i benderfynu ar ffordd o fynegi'u barn, naill ai os ydynt yn mynychu neu os nad ydynt yn dymuno bod

yn bresennol yn yr adolygiad. Gallant hefyd gynorthwyo plentyn neu berson ifanc i gynllunio ac i gyd-gadeirio'u cyfarfod adolygu eu hunain, yn cynnwys y lleoliad a phwy y dylid ei wahodd.

Mae'n rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol hefyd sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc:

- yn gwybod eu hawliau, yn cynnwys eu hawl i herio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dyfodol
- yn gwybod beth y mae eiriolwr yn ei wneud, a chael gwybodaeth am sut i gysylltu ag eiriolwr
- yn deall natur y cynllun gofal a chymorth a pham mae asiantaethau'n cymryd rhan

## Rhoi sylw i broblemau

Rhan o rôl y swyddog adolygu annibynnol yw sicrhau y caiff llesiant pob plentyn ei ddiogelu a'i hybu. Mae'n rhaid i bob swyddog adolygu annibynnol fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig profiadol a all ddarparu ymgynghoriad a chynghorion i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn. Mae yna ddyletswydd ar swyddogion adolygu annibynnol i ddefnyddio'r broses datrys anghydfod os na chaiff anghenion plentyn eu diwallu gan ei gynllun gofal a chymorth.

Gall swyddog adolygu annibynnol godi unrhyw bryderon unigol neu gyffredinol am arferiad gyda'r gweithiwr cymdeithasol perthnasol a rheolwr y tîm, dyrchafu'r pryder i'r rheolwr gweithredol, ac wedyn ddyrchafu'r pryder ymhellach i'r prif weithredwr. Os ydyw'n dal yn bryderus, mae'n rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol hysbysu CAFCASS Cymru, fydd yn penderfynu a ddylid cymryd camau cyfreithiol. Mae materion ymarfer yn cynnwys cynlluniau gofal a chymorth o ansawdd gwael, ac adegau pan nodwyd nad oes gan blentyn neu berson ifanc gynllun gofal a chymorth a gefnogir yn weithredol.

Gall y swyddog adolygu annibynnol ymofyn cyngor cyfreithiol os nad yw'n fodlon â phenderfyniadau'r awdurdod lleol ynglŷn â chynlluniau hirdymor plentyn neu berson ifanc. Mae gan swyddogion adolygu annibynnol bŵer sylweddol i herio'r awdurdod lleol sy'n lleoli ac fe allant fynnu'u bod yn gwrando ar ddymuniadau neu deimladau'r plentyn neu'r person ifanc. Gallant helpu plentyn neu berson ifanc i fynd â phenderfyniad yn ôl i'r llys os dyna'r hyn sydd ei angen i sicrhau y gwneir pethau er lles gorau'r plentyn neu'r person ifanc sydd wedi'i faethu.

### Gofalwyr Maeth a'r Swyddog Adolygu Annibynnol

Dylai gofalwyr maeth ystyried pob cyfarfod adolygu fel carreg filltir arwyddocaol yn y lleoliad, a'r swyddog adolygu annibynnol fel adnodd pwysig. Dylent gynorthwyo'r person ifanc yn weithredol i fynychu, neu o leiaf i gadarnhau eu bod wedi trefnu i'w barn gael ei chyfleu yn ysgrifenedig neu gan eiriolwr.

Dylai gofalwyr maeth hefyd baratoi o flaen llaw eu cyfraniad eu hunain tuag at yr adolygiad:

- eu barn am gynnydd y cynllun gofal a chymorth ers yr adolygiad diwethaf

- rhestru unrhyw faterion eraill nas cwblhawyd ers yr adolygiad diwethaf
- materion sy'n peri pryder ar hyn o bryd yn y lleoliad cyfredol neu wasanaethau nas darparwyd
- dyheadau ar ran y person ifanc hyd at yr adolygiad nesaf a'r tu hwnt

Dylid rhoi copi o'r paratoad hwn (a all fod mewn pwyntiau bwled) i'r swyddog adolygu annibynnol wrth gyrraedd y cyfarfod adolygu, gan ofyn i'r swyddog adolygu annibynnol sicrhau bod y materion a restrwyd yn cael eu codi yn ystod yr adolygiad ac yn cael eu cadarnhau yng nghofnodion yr adolygiad.

Bydd rhai swyddogion adolygu annibynnol yn rhannu'u cyfeiriad e-bost â'r gofalwr maeth, gan eu gwahodd i gysylltu â nhw rhwng adolygiadau os oes gan y gofalwr maeth unrhyw bryderon am gynnydd y cynllun gofal a chymorth, neu os oes yna oedi cyn cael copi o'r cynllun gofal a chymorth diwygiedig. Yn ychwanegol, os oes yna ddigwyddiadau sylweddol sy'n newid natur y lleoliad, fe ddylai'r gofalwr maeth ofyn i weithiwr cymdeithasol y person ifanc ac i'r swyddog adolygu annibynnol ddod â'r adolygiad yn ei flaen ar fyrder.

**Beth sy'n digwydd os nad yw Gofalwr Maeth yn fodlon â'i swyddog adolygu annibynnol?**

Yn y ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru, mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gallu dewis eu heiriolwr eu hunain. Gallant ofyn i'w gofalwr maeth weithredu fel eu heiriolwr, ac fe ddylai'r awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth i helpu'r gofalwr maeth i gyflawni'r rôl o eiriol.

Rôl yr eiriolwr yn y weithdrefn gwyno yw:

- grymuso'r plentyn/person ifanc drwy'i alluogi ef neu hi i fynegi barn, dymuniadau neu deimladau, neu drwy siarad ar ei ran ef neu'i rhan hi
- ceisio datrys unrhyw broblemau neu bryderon, a nodwyd gan y plentyn/y person ifanc, drwy weithio mewn partneriaeth â nhw, a dim ond gyda'u caniatâd
- siarad dros neu gynrychioli'r plentyn/y person ifanc yn ystod pob cam o'r gweithdrefnau cwyno drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- darparu gwybodaeth i'r plentyn/y person ifanc am eu hawliau a'u dewisiadau, gan helpu i roi gwedd gliriach ar y gŵyn a'r canlyniadau y maent yn eu ceisio

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs) yn monitro proses adolygu cynlluniau gofal y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ac yn herio arferion gwael gan awdurdodau lleol, yn cynnwys gadael i bethau lithro mewn gofal. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cadeirio cyfarfodydd adolygu, ac yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cynnwys y plentyn ac oedolion arwyddocaol yn eu proses adolygu. Mae yna gyfrifoldeb penodol arnynt i sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hawl i eiriolaeth.

Mae'n rhaid i'r broses eiriolaeth a chwynion weithio ochr yn ochr â gweithredoedd swyddogion adolygu annibynnol i ddatrys problem, ac fe fydd yn ymarfer da i'r swyddog adolygu annibynnol, y swyddog cwynion ac i unrhyw eiriolwr gytuno ar sianeli cyfathrebu a'u rolau priodol i ddatrys cŵyn.

**Beth sy'n digwydd os nad yw Person Ifanc yn fodlon â'i swyddog adolygu annibynnol?**

Yn y ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru, mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal:

- Yn gallu dewis eu heiriolwr eu hunain
- Dylid eu helpu i ddeall y dewisiadau sydd ar gael iddynt a'r gwahaniaeth rhwng yr opsiynau
- Dylid eu helpu i ddeall y 'gwahaniaethau yn y math o gymorth sydd ar gael, a'u bod felly'n gallu dewis yn ddoeth rhwng eiriolaeth leyg ac eiriolwr proffesiynol annibynnol'
- Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor am wasanaethau eiriolaeth yn rheolaidd, ynghyd â chymorth i ddefnyddio eiriolwr. Dylai hyn fod yn rhan o'r broses o asesu ac adolygu anghenion gofal a chymorth plentyn neu berson ifanc
- Os ydych chi, y plentyn neu'r person ifanc yn dewis eu heiriolwr eu hunain, fe ddylai'r awdurdod lleol ddarparu cymorth a chyngor i helpu'ch eiriolwr i gymryd y rôl
- Pan fo plentyn neu berson ifanc yn teimlo nad yw eu pryderon neu'u problemau'n cael eu datrys, efallai y bydd arnynt eisiau meddwl am neu wneud cŵyn/sylwadau gerbron yr awdurdod lleol
- Dylai'r awdurdod lleol gyhoeddi canllawiau manwl ynghylch y broses gwynion a sylwadau, sy'n egluro rolau a chyfrifoldebau unigolion allweddol

Os nad ydych yn fodlon â Swyddog Adolygu Annibynnol, fe ddylech geisio siarad â rheolwr y Swyddog Adolygu Annibynnol ynglŷn â'ch pryderon. Os ydych yn dal yn anfodlon, fe allwch wneud cŵyn.

## Adnoddau

Mae gan **Gofal Cymdeithasol Cymru** Ganolfan Wybodaeth a Dysgu sy'n darparu ystod o wybodaeth ddefnyddiol am Ddeddf 2014
socialcare.wales/hub/sswbact

Bydd **Adran 4 Cod Ymarfer 6 y Ddeddf** yn darparu manylion llawn ichi am rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol
hgov.wales/docs/dhss/publications/180328pt6en.pdf

**Deddfwriaeth**
Mae Adrannau yn Rhan 6 y Ddeddf yn ymdrin â swyddogion adolygu annibynnol
www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/part/6/crossheading/review-of-cases/data.xht?view=snippet&wrap=true
Mae'r ddolen hon yn mynd â chi at Reoliad 42 ynglŷn â rôl y swyddog adolygu annibynnol yng nghyfarfod adolygu cynllun gofal a chymorth y plentyn neu'r person ifanc www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1818/regulation/42/made

Mae Rhan 8 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 yn ymdrin â'r rheoliadau ar gyfer swyddogion adolygu annibynnol
www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1818/part/8/made

## Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth hanfodol i aelodau, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau ymgynghori.

**Cyngor**
Llinell Faethu Cymru
Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 o 9.30yb - 12.30yp dydd Llun i ddydd Gwener. Os galwch ar adegau eraill, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:
Fosterlinewales@fostering.net
Rhwydwaith Maethu Cymru
33 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB.

**Cymorth ac Adnoddau**
Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd am gefnogaeth a chynghorion gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a dibynadwy i drafod materion gofal maeth.
thefosteringnetwork.org.uk

**Hyfforddiant a Gwasanaeth Ymgynghori**
Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net

**Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu**
Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, sy'n dod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

**Cysylltu**
I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Rhwydwaith Maethu Cymru
33 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB.

Ffôn:  029 2044 0940
E-bost:  wales@fostering.net
Gwe: thefosteringnetwork.org.uk

Canfyddwch ni ar Facebook: facebook.com/thefosteringnetwork
Dilynwch ni ar Twitter: @fosteringnet
Dilynwch ni ar Instagram: @fosteringnet

/thefosteringnetwork @fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017